



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion y Bwrdd Cyfarfod, 24 Mehefin 2016

Yn bresennol:

Yr Ysgrifennydd Parhaol
(Cadeirydd)
Gillian Baranski
Chris Dawson
Gawain Evans
Owen Evans
Sioned Evans
Jeff Godfrey
Andrew Goodall
Peter Kennedy
Natalie Pearson (eitemau 1-5)
James Price
David Richards
Elan Closs Stephens
James Turner
Adrian Webb

Yr Ysgrifenyddiaeth:

Emma Alexander
Sarita Marshall

Hefyd yn bresennol:

Catherine Ashford (trafodaeth am y
refferendwm)
Laura Harrison (trafodaeth am y
refferendwm)
Caren Fullerton (eitem 2)
Martin Britton (eitem 2)
Helen Morris (eitemau 4 a 5)
Dylan Hughes (eitem 1)
Bethan Griffiths (eitem 1)

Ymddiheuriadau:

Ann Keane
Toby Mason

Sylwadau Cychwynol ar Ganlyniad Refferendwm yr UE

Cyn cychwyn cyfarfod y Bwrdd, gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i roi sylwadau cychwynol ar ganlyniad refferendwm yr UE. Roedd y rhain yn cynnwys effeithiau posibl ar yr economi a mewnfuddsoddi, taliadau amaethyddol, effaith Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar gyfraith ddomestig, materion sy'n ymwneud â staff, y setliad datganoli a goblygiadau ariannol.

Gohiriwyd cyfarfod y Bwrdd dros dro am 8.50 a.m. ar gyfer cynhadledd i'r wasg gan y Prif Weinidog. Daeth y Bwrdd ynghyd unwaith yn rhagor am 10 a.m.

Adroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y gynhadledd i'r wasg a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog a gofynnodd fod negeseuon at staff yn tynnu sylw at y datganiad.

Cyflwyniad i BoardPad

Cafwyd arddangosiad o ap BoardPad a chytunodd y Bwrdd i'w ddefnyddio o fis Gorffennaf.

Corfforaethol

1. Diweddariad am Weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg [Bwrdd (16)041]

- 1.1 Cyflwynwyd papur gan Dylan Hughes, y Prif Gwnsler Deddfwriaethol, a Bethan Griffiths, Prif Swyddog Cydymffurfiaeth â Safonau y Gymraeg, oedd yn amlinellu sefyllfa y ddwy Safon yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u herio. Adroddodd Dylan, er bod Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn yn fras yr apêl ynglŷn â chyhoeddi dogfennau, roedd wedi ysgrifennu ati hi eto ynglŷn â rhai materion.
- 1.2 Nodwyd bod chwe chŵyn wedi cael eu derbyn ar gydymffurfio ond y dylai fod yn gymharol hawdd datrys y materion hynny.
- 1.3 Nodwyd targed y Prif Weinidog o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac amcanion yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd ar y defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau Llywodraeth Leol.
- 1.4 Roedd y sylwadau a godwyd yn y drafodaeth ddilynol yn cynnwys:
 - cadarnhad y gallai Llywodraeth Cymru barhau i fod yn rhan o'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD), wedi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE), gan fod yr NPLD eisoes yn cynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r UE ond y byddai natur y cyfranogiad yn newid;
 - byddai strategaeth i weithio tuag at y targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn cael ei datblygu cyn hir;
 - yr angen i reoli'r polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg mewn modd sensitif;
 - lanswyd cylch newydd o gyrsiau Cymraeg yn ddiweddar;
 - byddai'n bwysig deall yn glir beth mewn gwirionedd yw ystyr 'sefydliad dwyieithog' a sut y gellid mesur hynny.
- 1.5 Ar ran y Bwrdd, llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol y swyddogion ar y gwaith a wnaed, a nododd fod gan y sefydliad gyfrifoldeb i ddiogelu'r iaith.
- 1.6 Cydnabu'r Bwrdd bwysigrwydd rheoli'r polisi mewn modd sensitif a chytunwyd y dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen lefel uchel, gan gynnwys cynrychiolaeth o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) a'r Undebau Llafur yn ogystal ag amrywiaeth eang o safbwyntiau a chefnidiroedd, i ystyried y polisi.

Llywodraethu a Pherfformiad

2. Monitro Cynnydd o ran Cyflawni

- 2.1 Rhoddodd Caren Fullerton, Prif Swyddog Digidol, a Martin Britton, Prif Swyddog Gwybodaeth Dros Dro, gyflwyniad ar ddyfodol darpariaeth TG yn Llywodraeth Cymru.
- 2.2 Gofynnodd David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, i'r costau cyfredol a'r costau o weithredu'r cynnig gael eu meincnodi.
- 2.3 Nododd Owen Evans y byddai Achos Busnes Strategol yn cael ei baratoi dros y misoedd nesaf ac y byddai'n fodlon cynnwys craffu allanol ar y cynnig a dod â'r drafodaeth yn ôl i'r Bwrdd. Nododd hefyd yr angen i ystyried sut y gellid datblygu arbenigedd mewnol orau.
- 2.4 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Risg ymchwilio i wraidd y mater ac y dylid dod â phapur ar sicrwydd i gyfarfod yn y dyfodol.

3. Cyllideb Atodol a Diweddariad am y Pwysau Yn Ystod y Flwyddyn [Bwrdd (16)038]

- 3.1 Cyflwynwyd papur gan Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, yn amlinellu'r Gyllideb Atodol Gyntaf, yn seiliedig ar y newidiadau i bortffolios y Cabinet; asesiad o'r ymrwymadau cyllidebol a wnaed gan y weinyddiaeth flaenorol; a diweddariadau ar y cronfeydd wrth gefn a'r pwysau cyllidebol. Nododd y byddai cyfarfod y Pwyllgor Cyllid dros dro yn cael ei gynnal cyn hir, gyda phleidlais yn dilyn hynny ym mis Gorffennaf.
- 3.2 Tynnodd Gawain sylw at y newidiadau o ran y pwysau ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ac adroddodd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus iddo herio pwysau. Roedd hefyd wedi gofyn i sefyllfa y cronfeydd wrth gefn gael ei hystyried.
- 3.3 Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol yr angen i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n briodol.
- 3.4 Rhoddodd Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, ddiweddariad i'r Bwrdd ar y sefyllfa o ran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd wedi gofyn am lythyrau gan Swyddogion Atebol y 10 corff Iechyd. Roedd gwelliannau wedi cael eu gweld mewn rhai sefydliadau eisoes ac roedd amseroedd aros wedi sefydlogi.

4. Datganiad Llywodraethu Drafft [Bwrdd (16)039]

- 4.1 Cyflwynodd Helen Morris, Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, y Datganiad Llywodraethu arfaethedig i'w cynnwys yng Nghyfrifon 2015-16. Dywedodd y byddai'r datganiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Gorffennaf.

- 4.2 Gofynnodd Elan Closs Stephens i'r datganiad gynnwys cyfeiriad at y berthynas well rhwng Pwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd a Phwyllgorau Archwilio a Risg y Grŵp yn ogystal â'r gwaith a wnaed i gyfrannu at gyflawni amcan amrywiaeth y sefydliad. Gofynnodd hefyd i'r data am lywodraethu gwybodaeth gynnwys mwy o gyd-destun. Gofynnodd Adrian Webb i'r eitem ar docynnau teithio rhatach ar y bws gynnwys cyfeiriad at adnabod ac atal twyll.
- 4.3 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Helen am y datganiad a gofynnodd i'r tîm gynnwys cyfeiriad at ganlyniad refferendwm yr UE yn y rhagair i'r Cyfrifon.

5. Cofrestr Risg Corfforaethol [Bwrdd (16)040]

- 5.1 Cyflwynodd Helen Morris y papur, oedd yn nodi'r cynigion ar gyfer strwythur y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRC) yn y dyfodol.
- 5.2 Diolchodd y Bwrdd i Helen am ei gwaith a chytunodd y byddai'n canolbwyntio ar gynnwys y gofrestr mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Eitemau Rheolaidd

6. Cofnodion Drafft 27 Mai a Materion yn Codi [Bwrdd (16)042]

- 6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai fel cofnod cywir.

7. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol a Diweddariadau Pwyllgorau [Llafar]

- **Adroddiadau eithrio [Llafar]**

Adroddiadau Eithrio

- 7.1 Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i rannu materion allweddol yn deillio o'u meysydd hwy yn ogystal â diweddariadau Pwyllgorau. Roedd y drafodaeth yn cynnwys diweddariadau ar:
- yr Wythnos Gydraddoldeb, gyda Gillian Baranski yn nodi ei diolch i'r rhwydweithiau staff, Natalie Pearson, Gemma Booth, a'r tîm Cydraddoldeb;
 - yr arolygiad o'r consortia addysg rhanbarthol;
 - Bil Cymru;
 - yr enwebiad ar gyfer rôl y Cwnsler Cyffredinol;
 - strategaeth newydd y GIG;
 - perfformiad y sefydliadau iechyd;
 - yr ymchwiliad i brosiectau yn ymwneud â ffordd liniaru'r M4;
 - y gostyngiad parhaus yn niferoedd staff ac mewn absenoldebau oherwydd salwch.
- 7.2 Darparodd Sioned Evans ddiweddariad ar drafodaethau'r ddau gyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gweithrediadau, a oedd yn cynnwys

rheoli cofnodion, diogelu data, ac argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ymweld â Gorsaf Bŵer Wylfa yn ogystal â chynnal sesiwn holi ac ateb gyda staff yng Nghyffordd Llandudno.

- 7.3 Cytunwyd y byddai'r nodiadau anffurfiol o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithrediadau yn cael eu rhannu â'r Bwrdd yn y dyfodol.

Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol

- 7.4 Atgoffwyd Aelodau'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar sail ddi-bapur.
- 7.5 Adroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn fyr ar ei gyfarfodydd â'r Cabinet newydd. Nododd hefyd y byddai newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei drafod yn yr wythnos oedd i ddod.

8. Unrhyw Fater Arall

- 8.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 28 Mehefin 2016